

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA LLWYDCOED

Cofnodion o gyfarfod Cyd-bwyllgor Amlogfa Llwydcoed a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Merthyr Tudful ddydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2017 am 2pm.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
M. Colbran, J. Thomas, D. Isaac a D. Chaplin

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
H. Boggis, (Mrs) A. Crimmings, A. S. Fox a G. Jones

Swyddogion oedd yn bresennol
Mr. C. Pritchard – Rheolwr Cynorthwyol y Fynwent
Mr. S. Preddy – Cyfrifydd Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned
Mrs L. Coughlan – Cyfreithiwr

11 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol K. Morgan (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf).

12 DATGAN BUDDIANT

Doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

13 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion o gyfarfod Cyd-bwyllgor Amlogfa Llwydcoed a gynhaliwyd ar 19 Medi 2017 yn rhai cywir.

ADRODDIAD RHEOLWR Y GWASANAETHAU PROFEDIGAETHAU

14 YSTADEGAU A CHYFLAWNIAD

Yn ei hadroddiad, rhoddodd Rheolwr Cynorthwyol y Fynwent ystadegau a ffigurau cyflawniad i'r Aelodau ynghylch gweithrediad yr Amlogfa ers y cyfarfod diwethaf, ac yn dilyn ystyried yr eitemau hynny, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth.

15 DIWEDDARIAD LLAFAR – RHEOLWR CYNORTHWYOL Y FYNWENT

Rhoddodd Rheolwr Cynorthwyol y Fynwent ddiweddariad llafar i'r Aelodau ynglŷn â'r Gwasanaeth Carolau yn Amlogfa Llwydcoed.

Cafodd y Pwyllgor ei hysbysu bod trefn y gwasanaeth wedi'i chwblhau, (yn dilyn trafodaethau gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd Amlogfa Llwydcoed) ac y dylai'r Gwasanaeth fynd yn ei flaen yn ôl y bwriad.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD** cydnabod y gwaith a wnaed i drefnu'r Gwasanaeth Carolau yn Amlogfa Llwydcoed.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD

16 ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB AR GYFER 2016-17 AC AMCANGYFRIFON REFENIW DRAFFT AR GYFER 2017-18

Cyflwynodd Cyfrifydd Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned yr adroddiad i'r Aelodau a oedd yn cynnwys cymhariaeth o'r gwariant a'r incwm amcanol gwirioneddol â'r gyllideb gymeradwy am yr wyth mis cyntaf o'r flwyddyn ariannol 2017- 18.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** –

(1) Nodi sefyllfa monitro cyllideb 2017-18.

**D. ISAAC
CADEIRYDD**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.20pm